# Trefnydd Gwybodaeth TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant - Uned 6, Tasg 2

cbac wjec

## Ymchwilio i Bolisi Cymdeithasol mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Gofal Iechyd Darbodus Cymru
- Deddf Safonau Gofal 2000 - 2017
- Iechyd Cyhoeddus Cymru 2017
- Cymru Iachach

**Canllawiau:** Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd, Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Pobl Hŷn

## Diogelu oedolion agored i niwed

- Diogelu ac atal oedolion agored i niwed rhag camdriniaeth neu niwed.
- Cefnogi a grymuso oedolion agored i niwed i wneud eu penderfyniadau eu hunain (llais, dewis, rheolaeth).
- Darparu hyfforddiant fel y gellir nodi materion diogelu yn gynnar, rhoi gwybod amdanynt yn gywir ac ymchwilio iddynt yn briodol (gweler adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.)

## Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd

Mae'n ofynnol i bob unigolyn sy'n gofalu am oedolion sicrhau a hyrwyddo eu diogelwch. **Sefydliadau sy'n gyfrifol:** awdurdod lleol, yr heddlu, GIG, byrddau iechyd, athrawon, gweithwyr prawf.

## Llesiant a gwydnwch

Caiff **llesiant** ei ddiffinio fel ansawddbywyddasy'ncynnwys emosiynau cadarnhaol megis bodlonrwydd a hapusrwydd. **Gwydnwch** yw'r gallu i addasu ac ymdopi â sefyllfaoedd newydd. Mae rhai o'r ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant yn cynnwys:

- iechyd corfforol, meddwl ac emosiynol da
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol cadarnhaol
- diogelwch rhag camdriniaeth ac esgeulustod
- sicrhau hawliau a hawlogaethau
- cyfraniad at gymdeithas
- llesiant cymdeithasol ac economaidd
- amgylchedd byw addas.

## Rolau ymarferwyr yn newid

- Mwy o bwyslais ar ofal person-ganolog, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.
- Rolau newydd: rhagnodwr cymdeithasol, fferyllydd cymunedol (rolau uwch i ymarferwyr).
- Mwy o gydweithio a chyd-gynhyrchu wrth gynllunio gofal.
- Atal/ymyrryd yn gynnar.

## Newid yn y gymdeithas

**Poblogaeth:** mae'r boblogaeth yng Nghymru yn cynyddu gyda mwy o bobl yn byw yn hirach. Mae mwy o gartrefi sengl a llai o dai fforddiadwy, ac mae safonau byw ar gyfer rhai sectorau cymdeithas wedi gostwng. Mae mwy o alw am ysgolion, cynnydd mewn tlodi ac amddifadedd mewn rhai ardaloedd o Gymru.
Patrymau gweithio: mwy o bobl yn gweithio o gartref, llai o fwlch cyflog rhwng y rhywiau, mwy o gyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau

**Safonau iechyd:** mwy o bobl yn byw gyda chyflyrau megis dementia, salwch sy'n cyfyngu ar fywyd megis clefyd y galon a strôc, ac anghenion iechyd mwy cymhleth. Cynnydd mewn cyfraddau gordewdra, gostyngiad mewn ysmygu, mwy o wasanaethau iechyd meddwl.

**Amrywiaeth:** mwy o siaradwyr Cymraeg, cynnydd yn nifer y bobl sy'n nodi eu bod yn LHDTC+.

## Newidiadau sy'n effeithio ar ddarparu gofal cymdeithasol

- Demograffig hŷn yng Nghymru (mae angen mwy o ofal ar bobl hŷn).
- Mwy o bobl yn byw gydag anghenion cymhleth sy'n cyfyngu ar fywyd.
- Costau uwch gofal iechyd, mwy o wariant GIG a llai o gyllideb.
- Prinder staff (staff clinigol a gweithwyr gofal yn y cartref).
- Llai o oedolion o oedran gweithio (gweithlu llai/ llai o dreth i ariannu gwasanaethau).
- 'Blocio gwelyau' (i bobl hŷn heb becyn gofal gartref).
- Dim digon o 'ofal cydgysylltiedig' (mae gormod o asesiadau yn achosi oedi).
- Materion cymdeithasol (tlodi, addysg wael, diweithdra, materion cyfathrebu).